



**Bore Sul, Ionawr 5ed, 2020**



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma, a blwyddyn newydd dda. Mae oedfa heddiw yng ngofal rhai o aelodau Pentyrch a Karen Owen. Estynnwn groeso arbennig iddi hi ac i ymwelwyr i'n plith. Cynhelir bedydd Nia Enid Wyn Jones gan Jane Eryl y bore 'ma. Mae'r teulu bach yn byw yn Hong Kong, ond ar ymweliad nôl gyda'r teulu yng Nghymru. Mae Ysgol Sul i'r plant.



**Llun o Nia yn gweld ei chwaer fawr Ffion am y tro cyntaf!**

**Cyfamod Eglwysig y Tabernacl**  
Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dygeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

### **DIOLCH**

I bawb a gyfrannodd gymaint at fywyd yr eglwys a'r gymuned dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel cymuned o wirfoddolwyr, mae croeso i bobl newydd gyfrannu neu ymaelodi. Mynnwch air gyda Gwilym Huws os hoffech gyfrannu eich talent at fywyd yr eglwys yn 2020 a thu hwnt.  
Diolch.

## Yr Wythnosau Nesaf

Ionawr 12fed - ni fydd Aled Edwards yma, ond cawn gyfle i groesawu y Parchg. Robert Owen-Griffiths ar ei ymweliad cyntaf â ni.

**Ionawr 19 - Sul Pob Oed**

Ionawr 26ain - Emlyn Davies

**Chwefor 2il - Sul Pentref**

**Creigiau**

Chwefror 9ed - y Parchg. Aled Edwards

**Chwefror 16 - Sul Pob Oed**

Chwefror 23ain - y Parchg

Gethin Rhys

**Mawrth 1af - Sul Tonteg a Phentre'r Eglwys**

Mawrth 8ed - Dr Gareth

Roberts, Bangor - fel rhan o

gyfres o gyn-aelodau yn

dychwelyd yn ein blwyddyn 150 oed.

## CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU A'R BANC BWYD

Diolch yn fawr am y cyfraniadau cyson i Adref, Nantgwyn, a Cwtch ac i'r Banc Bwyd. Mae stff yn mynd wrthon ni bob wythnos

## **CYMORTH I FERCHED**

**PONTYPRIDD &**

**TALEBAU NADOLIG 2019**

Diolch am y cyfraniadau arbennig i Cymorth i Ferched a'r bobl ifanc oedd wedi gadael gofal. Mae cyfle o hyd i gyfrannu os hoffech at y gwragedd a'u plant - defnyddiau hylendid personol os gwelwch yn dda. Diolch.

## **MERCHED Y TAB**

Cyfarfod cyntaf 2020 am 10.30 ar fore Iau 16 Ionawr yn y Ganolfan i drefnu rhaglen y flwyddyn.  
Croeso.

Achlysur cyntaf dathliad 150 mlynedd y Capel

8.00pm 31 Ionawr 2020

Yn y Ganolfan, Efail Isaf.

**DON LLEWELLYN**

yn siarad ar y testun:

'Straeon Cymeriadau Ardal y Garth'

**Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:**

**carolinerees2@hotmail.com**

**neu decstio Caroline ar**

**07539452130**

## **CYLCH CADWGAN**

7.30pm 14 Chwefror 2020 **Yr**

**Athro GERAINT JENKINS** yn siarad

ar y testun:

'Y Digymar Iolo Morganwg'